Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 11. Rhif 5] MAI, 1911. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Y Parch. Jenkin Lloyd Jones, Ll.D., Chicago. (Gyda Darlun).

Y Beibl: Yr hyn yw a'r hyn nad yw. Parch. Joseph Wood.

Myfyrdodau Pasg. R.J.J.

Ymson y Myfyriwr.

"Bywyd Iesu" gan Renan.

Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.



Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfrau Cyhoeddedig yn Swyddfa'r Ymofynydd.

Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr, gan D. E. Jones (Buddugol yn Eisteddfod Velindre). Cloth, 3s.; Post free, 3s. 4d.

Hanes Plwyf Llangynllo, gan Evan Davies, Lampeter Velfrey (Buddugol). Cloth, 2s. 6d.; Post free, 2s. 9d.

Cofiant 'Phillips, Horeb.' Gan ei fab, y Parch. T. Morris Phillips. Cloth, 2s. 6d.; Post free, 2s. 9d.

Wedrosia: Nofel Ddifyr. Buddugol yn Eisteddfod Mountain Ash. 6d.; Post free, 7½d.

Cyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Llandyssul, 1894. 4d.; Post free, 5d.

Myfyrdod mewn Mynwent. Gan Thomas Gray. Cyfieithedig gan Dafis, Castell Hywel; gyda Nodiadau gan Sarnicol. 2d.; Post free, 2½d.

Cri Carcharor dan farn Marwolaeth. Gan Dafis, Castell Hywel. 1d.; Post free, 1½d.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——



Y Parch. Jenkin Lloyd Jones, Ll.D., Chicago.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1911-05_11_5

YR ✠ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1910. [CYF. X. RHIF 5.

Y PARCH. JENKIN LLOYD JONES, LL.D., CHICAGO.

YN y cylchgrawn nodedig, "Human Life," ymddangosodd braslun o fywyd llwyddianus y Cymro a adnabyddir yn Chicago wrth yr enw uchod. Gan fod un o brif gylchgronau America wedi gweled teilyngdod yn nghymeriad y Parch. Jenkin Lloyd Jones, gael sylw yn ei golofnau, tybiaf mai nid peth difudd fyddai rhoddi ffurf Gymreig i'r cyfryw sylwadau felly.

"Ceir dynion arwynebol eu syniadau weithiau yn tybio fod creiddgyrch cymdeithasol i'w ffurfio drwy briddfeini neu geryg, neu ryw ddefnyddiau a gyfansoddant brydferthwch adeiladwaith, heb allu o honynt sylweddoli y ffaith mai y gwir aduniadau cymdeithasol ydynt y gwŷr a'r gwragedd effeithiol hyny ag sydd yn gwneyd gwaith y byd.

Fel engraifft, dyna'r Parch. Jenkin Lloyd Jones, o Chicago, neu, os myner ei leoli yn fwy pendant, adnabyddir ef fel Abraham Lincoln Center, gan ei fod ar lawer ystyr

YN DEBYG I'R ANFARWOL LINCOLN.

Pan adawodd efe ei gartref yn Wisconsin, wedi cael profiad o fywyd fel ffermwr, milwr, myfyriwr a phregethwr, daeth i'w feddwl ef i fyned i Chicago dan y penderfyniad o'i gwasanaethu hi, a mwy na hyny, gorchfygu ei dylanwadau difraw a llygredig, drwy gynllun o wasanaeth. Yr oedd hyny yn y flwyddyn 1880.

Yn ol ei gynllun cawn ef yn Chicago, ac yno yn mysg ychydig ddyeithriaid yn gosod ei gynlluniau ger eu bron hwy, ac heb lawer o gefnogaeth yn gosod ei arwyddlun allan fel gwasanaethwr y bobl yn y llinell grefyddol o feddwl gan ofyn am gefnogaeth a chefnogwyr, fel yr arferid gwneud gan ddynion ieuainc pan wedi astudio cangenau neillduol o wybodaethau.

Y gwasanaeth cyntaf y galwyd arno i'w gyflawni ydoedd yn Vincennes Hall, ar y pedwerydd o Tachwedd, 1882. Hyd yr adeg hono ni welodd efe gyfleusdra i gychwyn eglwys ei hunan, ac hyd yn nod

y pryd hwnw nid oedd yr arwyddion yn gefnogol iawn. Modd bynag, teimlodd yn alluog i gyhoeddi fod cyfarfod pregethu i fod mewn man neillduol yn ystod yr wythnos ddilynol. Pan ddaeth y noson apwyntiedig, nid oedd yn bresenol ond nifer fechan, ac ychydig o frwdfrydedd ddangosid yn nglyn a'r anturiaeth.

Ond cafwyd ar ddeall yn fuan fod Jones, y pregethwr dyeithr, yn ddyn o benderfyniad di-ildio, ac yn llawn tân a brwdfrydedd Cymreig, wedi ei eni yn Nghymru ddeugain mlynedd yn flaenorol, ac wedi penderfynu mai yn Chicago y byddai efe yn cartrefu, ac mai yno y byddai efe yn pregethu ei efengyl—"Duwioldeb ymarferol." Yn y pedair blynedd dilynol bu ei lwyddiant uwchlaw dysgwyliad pawb. Yr oedd ganddo eglwys luosog a chynyddol ar gongl Oakwood Boulevard a Langley Avenue. Yno y bu yn fawr ei barch a'i lwyddiant hyd Sul y Pasc, Ebrill 25, 1905, pan y cyflawnodd y gwasanaeth cyntaf yn yr adeilad godidog, gwerth 200,000 o ddoleri, adnabyddus dan yr enw Abraham Lincoln Center.

Gellid galw y dyn rhyfedd hwn yn Edward Everett Hale o Chicago, gyda chaniatau nad oedd y dyn godidog hwnw yn gyfartal ei ddylanwad i'n harwr. Gyda llaw, geilw Jones ei hun "Y Pregethwr Annymunol," wrth hyny yn golygu ei fod yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau yn cyffwrdd ag achosion y truenusrwydd a ddyoddefir gan filoedd yn y byd hwn; y cyfryw y mae dynion gan faint eu drygau yn gyfrifol am danynt. Gallasai yn ogystal ddylyn cwrs cyffredin gweinidogion, sef dywedyd am boenau uffern ddychymygol, yn nghyd a llawenydd y nefoedd ddychymygol, ond dewisai ef yn hytrach ddweyd am y drygau a'r dyoddefiadau a nodwedda y bywyd presenol, lle y gall dynion gyfnewid eu huffern bresenol am nefoedd ddaearol. Gall Jones yn herwydd ei onestrwydd unplyg fod yn anymunol i rai, ond nid yn anymarferol i neb. Y mae efe yn ymwneyd a'r presenol. Cred efe mai yr unig ffordd i gael gwell dyfodol ydyw ymdrechu am well presenol. Os â ymwelydd ato yn ei lyfrgell, caiff glywed fod Abraham Lincoln Center yn dŷ o allu ysbrydol, o'r hwn y deillia cynorthwyadau anianol, deallol, celfyddydol, cymdeithasol, moesol a chrefyddol. Os gofyn yr ymwelydd, i ba enwad neu eglwys yr ydych yn perthyn? Yr ateb fyddai, "yr wyf yn perthyn i bob eglwys sydd am wneuthur daioni yn y byd." Y rhai sydd wedi ac yn arwyddo eu henwau ar lyfr ei eglwys dderbyniant y gredo syml ganlynol:

"Yr ydym yn ymuno yn nghyd yn ffafr moesoldeb a chrefydd, fel y deonglir hwy gan gynydd meddyliol bywydau puraf dynoliaeth, gan obeithio felly i allu cyd-ddwyn beichiau ein gilydd a chynyddu gwirionedd, cyfiawnder a chariad yn y byd."

"Y dyn sanctaidd a gwirioneddol heddyw ydyw y dyn sydd yn gwneyd gwasanaeth i'w gyd-ddynion. Y mae Jones yn ddyn sanctaidd. Yn yr addoldy eang a gwerthfawr, Abraham Lincoln Center, ceir dynion o'r ystrydoedd a'r budreddi. Yn y dosbarth *kindergarten* gwelir un-ar-ddeg o genedloedd yn cael eu cynrychioli, sef Americaniaid, Saeson, Cymry, Ysgotiaid, Gwyddelod, Germaniaid, Swediaid, Scandinafiaid, Daniaid, Iuddewon, a'r genedl o liw. Yn yr îs-ystafell

lle cyferfydd plant yr ystryd ar nosweithiau hirion y gauaf i ymddifyru ac i gael eu diwyllio yn ngwersi iechyd a llafur, gwelir mwy o amrywiaethau cenedlig. Dygir y rhai hyn yn nghyd megys i dawddlestr i'w gwneyd yn Americaniaid. Dysgir hwy yma i chwareu ac i astudio yn nghyd. Yn brydlon gellir disgwyl eu gweled yn myned allan i gydlafurio er bod o wasanaeth i gymdeithas. Yma cânt eu diwyllio mewn llenyddiaeth, mewn gwyddorau teuluaidd, cerddoriaeth, barddoniaeth, celfyddyd, athroniaeth, moesau a chrefydd—yr oll wedi eu cyd-dymeru a'u cymwyso i gynyrchu moesau ymarferol. I bersonau cyflawn oed rhoddir darlithiau a gwersi ar bynciau y dydd. Dygir mamau at eu gilydd yma, a chaiff y cwestiynau a berthynant iddynt eu heglurhau; ymadawant am eu cartrefi a'u meddyliau wedi eu hadfywio a'u hysbrydoli gyda'r grediniaeth nad yw bywyd mor ofnadwy o resynus wedi y cyfan. Cyhoeddir yma newyddiadur wythnosol dan yr enw "Unity," yn yr hwn y cyhoeddir darlithiau Mr. Jones, yn nghyd ag anerchiadau o wir werth i'r frawdoliaeth yn mhell ac agos. Ymddengys nad oes un gweinidog yn y ddinas fawr yn ymyl y llyn yn cael galwadau mor fynych i gyfarch y cyhoedd a'r ffraeth a'r doniol Gymro Americanaidd, y Parch. Jenkin Lloyd Jones. Y mae efe wedi llwyddo yn fwy na dysgwyliad pawb i ddwyn yr ystrydoedd a'r cwteri yn gydweithwyr yn mhlaid rhinwedd a daioni. Y mae efe yn parhaus lafurio er dangos i'r rhai sydd yn byw mewn digonedd y modd y mae eu cyd-ddynion lluosog wedi eu caethiwo i fyw mewn angen. Ac eto nid yw efe yn pregethu elusen, yn hytrach pregetha ymdrech a diwydrwydd. Ceisia ddysgu y rhai ydynt yn esgeuluso eu manteision, mewn gwersi a'u gwnant, drwy eu mabwysiadu, yn wŷr a gwragedd o ddylanwad dyrchafol yn y byd. Ceisia ddysgu a dangos pan ddaw y deiliaid yn well llywodraethwyr, y caiff y cyhoedd well llywodraeth. Dywed efe, a dysg hyny yn amlwg, fod pob camwri cymdeithasol yn gwreiddio mewn anwybodaeth a difaterwch.

"Y mae Abraham Lincoln Center gyda ei dosbarthiadau, ei llyfrau, ei darlithiau, a'r ystafelloedd adloniadol yn fath o dawdd-lestr mawr lle dysgir bechgyn a merched, gwŷr a gwragedd, athron-ddysg y Rheol Euraidd yn ei hystyr ymarferol. Y mae ei eglwys yn ganolbwynt o ddylanwad am fod ei sylfaenydd yn un felly. Y tlodion, y rhai a wnaed yn ddedwyddach, y cyfoethogion y rhai a wnaed yn fwy cymydogol, ie, yr holl rai a gawsant gynorthwy i wthio yn nes i'r goleuni drwy ei addysg a'i esiampl ef, a arosant i gyhoeddi fod y diildio a'r caredig Gymro, y Parch. Jenkin Lloyd Jones, yn teilyngu safle yn mysg y rhai a enillasant iddynt eu hunain hawl i'w galw yn feistriaid gwasanaethgar."—*O'r Drych.*

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Penod VII. (Parhad.)

Brychau ar yr Haul, neu Gamsyniadau yn y Beibl.

Sylwch ar y modd yr esbonir i ffwrdd yr adroddiad eglur am gread y byd mewn chwe' diwrnod gan y "cyssonwyr" hyn. Mae daeareg wedi rhoddi y rhai gredant yn llythyrenol yn Genesis mewn penbleth ofnadwy. Yn gyntaf, gwadent gasgliadau daeareg; yna dywedent na feddyliai "diwrnodau" ddiwrnodau o gwbl, ond "oesoedd"; ac yn awr, o'r diwedd ymddengys eu bod wedi cytuno mai Genesis yw y Jonah anffodus ar fwrdd y llong sydd heblaw hyny yn anffaeledig, ac y rhaid ei roi i fyny i ystormydd difaol beirniadaeth. Mae pob rhan arall o'r Beibl yn anffaeledig, a hyny mewn modd gwyrthiol; ond gellir amheu y llyfr hwn. Pa ystrywiau gresynus yw y rhai'n? Pwy wahaniaeth yw os yw Genesis yn gamsyniol? Dim o gwbl. Ar bwnc o Wyddor disgwyliwn ef i fod yn gamsyniol. Gallaf ei ddarllen gyda'r un faint o fudd yn gywir ag o'r blaen; ond os credaf fod pob gair yn y Beibl yn ysprydoledig yna yr wyf mewn dyryswch aethus. Yn mhell o gredu y bydd ini golli unrhyw beth o werth os rhown i fyny yr hen ddamcaniaeth am y Beibl, 'rwyf fi yn un o'r rhai hyny gredant fod y syniad diweddar am y Beibl yn enill amlwg a phenodol i'r byd, a'n bod yn cymeryd cerryg rhwystr allan o ffordd dylanwad y Beibl trwy gyfaddef fod ynddo gamsyniadau. Ond siaradaf yn nes yn mlaen am yr enill hwn. Digon yn awr yw dangos i chwi fod yna gamsyniadau ynddo. Gadewch ini gymeryd ychydig allan o hanes y Cwymp—cwymp Adda ac Efa—yr afal—y sarph—yr ardd. Mae llawer yn y stori hon sydd yn awgrymiadol; mae yn unol a'r natur ddynol. Pan y darllenaf hi teimlaf y cofnoda fy nheimlad fy hun. Ond a yw yn hanesyddol ac yn llythyrenol wir? A yw yn ddigamsyniol wir yn ei holl fanylion? A fu erioed y fath bethau a seirph yn gallu siarad, a choed yn dwyn ffrwyth swyngyfareddol? Pan y cyfarfyddaf a'r pethau hyn mewn crefyddau ereill, gwn beth ydynt—ffugchwedlau, mwy neu lai prydferth, yn cynnwys breuddwydion a dychymygion boreuol dyn ynghylch tarddiad drygioni. Paham y dylwn gredu fod genyf hanes llythyrenol yn Genesis? Mae'n hollol naturiol fod y sarph wedi cael lle yn hanesion boreuol yr Iuddewon pan gofiwn mor helaeth ei haddolir yn y Dwyrain. Ond deuwn i wrthdarawiad anobeithiol a Gwyddor a synwyr cyffredin pan yr anghofiwn mai ffug-chwedl, ac nid hanes, yw'r hen ystori hon. Oes yna yr un dyn ar wyneb y ddaear greda

fod holl hîl y sarph yn ymlusgo ar eu torr fel cosp am drosedd gyflawnwyd gan un o honynt chwech mil o flynyddau yn ol? Mae yn groes i bob rheswm, canys gwyddom fod y sarph erioed yn ymlusgo ar ei thorr yn mhell cyn i ddyn wneyd ei ymddangosiad ar y ddaear. Gallwn brofi hyny, am y gallwn gloddio y sarph allan o haenau o'r ddaear ffurfiwyd cyn amser Adda, a gweled mai dyma oedd ei chyflwr filoedd o flynyddau cyn i'r felldith hon gael ei chyhoeddi. Oes yna yr un dyn yn fyw a gred mai pan y pechodd Adda y daeth marwolaeth gyntaf i'r byd? Rhaid na ŵyr ddim am ffeithiau mwyaf elfenol Gwyddor i allu credu hyny. 'Roedd marwolaeth yn bresenol yma yn ei holl allu didostur yn mhell cyn Adda; dyma'r cloddelion (*fossils*) i brofi hyny. Ac eto parha pobl i ddweyd wrthym na fyddai dyn farw o gwbl pe na bae Adda wedi pechu. Oes yna yr un dyn a synwyr yn ei goryn gred i ddrain ac ysgall wneud eu hymddangosiad gyntaf ar y ddaear fel canlyniad y felldith? Mor bell yw'r rhan hono o'r felldith—"drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i ti"—o fod yn wir, fel y gwyddom mai o ysgallyn y daw brenhines y blodau, y rhosyn yn ein gerddi, ac yn mhellach, mai nid ysgall ddwg y ddaear fel ffrwyth llafur dyn; eithr yn hytrach flodau prydferth neu lysiau iachaol neu blanhigion bywiol, fel y byddom ni yn hau yr hâd, yn unol a deddfau natur, y rhai ydynt ddeddfau Duw.

Yna wed'yn, beth am y felldith ar lafur? Pa ddyn cryf, gwrol, dyfal a diwyd, deimla fod gwaith yn felldith? Gŵyr yn hytrach mai un o'r breintiau mwyaf yw, ac y gweryd ef oddiwrth dri drwg mawr —tlodi, drygioni a'r teimlad o fod wedi blino ar bobpeth. Trwy lafur y deuwn i gymundeb a Duw, gan gyfranogi yn mhleserau y cread. "Mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, a gweithiaf finnau hefyd."

Labour's strong and merry children,
Comrades of the rising sun,
Let us sing a song together,
Now our toil is done.

No desponding, no repining,
Leisure must by toil be bought;
Never yet was good accomplished
Without hand and thought.

Even God's own holy labour
Framed the air, the stars, the sun;
Built our earth on deep foundations,
And the world was won.

Gellir profi fod pob un o'r pum' melldith, os cymerir hwy yn llythyrenol, yn groes i ffeithiau ac i brofiad. Siarada'r awdwr yn unol a goleuni a deall ei oes. Ond mae yn gamsyniol. Beth am hyny? Ai nid yw hanes y Cwymp o hyd mewn cydfod a'r natur ddynol? Ai nid yn y modd hwn y deffroa dyn i ymwybyddiaeth foesol ac y cyrhaedda ei syniad o dda a drwg? Nid yw hanes Adda ond hanes profiad moesol pob bod dynol. Plentyndod yw ein gardd Eden, yn

yr hon yr ydym oll wedi crwydro yn hapus, yn ddiniwed ac yn rhydd. Ond o'r diwedd daw y dydd pan y dewiswn yn ymwybodol y drwg yn hytrach na'r da, ac nis gallwn byth wedi hyny fod yr un fath ag o'r blaen; nis gallwn byth wed'yn ddychwelyd i'r Eden hono, ein diniweidrwydd di-feddwl. Ac eto mae'r hyn ddechreuwn fyw yn awr yn fywyd uwch na'r cyntefig, ac y mae'r Cwymp yn gam anferth yn mlaen mewn cynydd dynol. Ond beth os yw'r manylion yn ddychmygol a chamsyniol? Yn wir, dylem fod yn ddiolchgar fod yna ar dudalen gyntaf y Beibl rywbeth a'n rhybuddia i beidio cymeryd ei gynhwysiad yn llythyrenol. Yn llyfr Lefiticus dywedir wrthym fod yr ysgyfarnog yn aflan am ei bod yn cnoi ei chîl, ac nad yw yn fforchogi'r ewin. Ond y ffaith yw nad yw'r ysgyfarnog yn cnoi ei chîl, a gwnaeth yr ysgrifenydd gamsyniad wrth ddweyd hyny. Nid yw o'r pwys lleiaf, fodd bynag, os nad wyf yn dal damcaniaeth am y Beibl a'm gorfoda i gredu fod pob gair ynddo yn llythyrenol wir.

Cymerwch ddwy neu dair o ffigyrau yn nglyn a'r Israeliaid a'u hymadawiad o'r Aifft. Dywedir i driugain a deg o eneidiau—teulu Jacob a'i wasanaethyddion—fyn'd i lawr i'r Aifft, ond eu bod ar ddiwedd 170 o flynyddau wedi cynyddu i dair miliwn—ystori sydd yn hollol anghredadwy. Ac o'r tair miliwn hyn dywedir fod chwech can mil yn ddynion parod i ryfel. Yn awr, ystyriwch yr anhawsderau aruthrol i gael digon o ymborth i'r tair miliwn yma o bobl wrth eu tywys allan o'r Aifft. Y dref symudol, deuddeg milldir ysgwar, y dau càn mil o bebyll, y càn mil a haner o ychain, y ddwy filiwn o ddefaid, y tair miliwn o bobl, aethant oll allan o'r Aifft mewn un noswaith, cynhaliwyd hwy oll yn yr anialwch am ddeugain mlynedd. Yr ydym yn hollol sicr, a dweyd y lleiaf, fod y rhifau hyn yn druenus o anghywir. Pasiaf heibio i lawer o bethau er mwyn sylwi yn unig ar orchymyn roddwyd fod yr holl ddynion a'r gwragedd priod, a'r holl blant bach mewn rhyw dref neillduol i gael eu rhoi i farwolaeth, wedi iddi gael ei chymeryd, yn ogystal a'r holl dda, ond fod yr holl ferched dibriod i gael eu cadw yn fyw a'u rhanu rhwng y milwyr a'r offeiriaid (Numeri xxxi). Ydych chwi'n credu fod Duw wedi gorchymyn hynyna? Ydych chwi ddim yn meddwl yn hytrach fod yna gamsyniad pan ddywedir fod Duw wedi ei orchymyn?

Na ddyweded neb fy mod yn ymosod ar y Pum' Llyfr—ni wnaf ond dweyd wrthych y gwir am danynt. Ymosodaf yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar ddamcaniaeth goleddir yn eu cylch—damcaniaeth na amddiffynir, na awgrymir ac na chymeradwyir ynddynt; a charwn ddweyd yn mhellach na chawn, pan y cymerwn olwg resymol, naturiol, ar darddiad y llyfr hwn, ddim raid beri ini syndod, ddim a eilw am ymddiheurad. Mae ei syniadau am gread y byd, am natur Duw, am hanes dyn, am darddiad y drwg, yn debyg i'r rhai goleddid gan genhedloedd ereill yn yr un gradd cyfatebol o wareiddiad. Nid ydynt yn unig ond y syniadau hyny am Dduw, a dyn a'r bydysawd trwy y rhai y pasia pob cenedl yn ei dadblygiad, ond yn y rhai ni ddylai unrhyw bobl aros. Dyna'r hyn sydd yn bwysig. Pan yr awn i'r Beibl heb unrhyw ddamcaniaeth yn nghylch

ysprydoliaeth wyrthiol, cawn beth allem ddisgwyl. Mae'r oll yn hollol naturiol, a gwelwn yn nechreu y Beibl ddechreuad moesoldeb a chrefydd sydd yn unol a natur pethau, a'r hwn yw y man cychwyn o'r hwn y symud y Beibl i fyny, ac yn mlaen i rywbeth gwell. Ond ar y llaw arall, ystyriwch yr anhawsderau groesa bob cam o'r eiddom os y cadwn at y ddamcaniaeth fod pob gair yn wir ac yn wyrthiol ysprydoledig. Gorfodir ni yn barhaus droi a gwŷrdroi adnodau mewn modd nad yw ddim gwell na bod yn rhagrithiol, er mwyn dwyn Genesis i gydgord a ffeithiau gwyddor. Mewn ymarferiad, gorfodir ni i fod yn anonest a ni ein hunain yn nghylch gwyddor ag ysprydoliaeth y Pum' Llyfr. Gorfodir ni i gredu fod moesoldeb israddol y Pum' Llyfr—moesoldeb ganiatâi gaethwasiaeth, amlwreiciaeth ac ymddial, yr un a iawnder ac anghyfiawnder tragwyddol Duw. Gorfodir ni yn barhaus i wneud esgusawd dros Dduw; i egluro i ddynion sut y gallai fod yn bosibl i'r un sydd heddyw yn dad cariadus a thyner dynolryw, i orchymyn lladd yn ddiwahaniaeth ac mewn modd ysgeler fenywod diamddiffyn, blant diniwed ac anifeiliaid digymhorth, tra yn cadw y merched ieuainc i flys y milwyr.

Nid rhywbeth i gwyno yn ei gylch, ond yn hytrach i fod yn ddiolchgar am dano yw y ffaith na raid ini mwyach geisio gwneud yr esgusodion a'r amddiffyniadau hyn, ond gallwn ddweyd fod y Beibl yn yr oll o'r achosion yma yn gamsyniol. Gwna y fath gyfaddefiad bobpeth yn iawn, galluoga ni i ddefnyddio ein synwyr cyffredin, i ddarllen y Beibl yn naturiol i weled gyda dyddordeb newydd sut y mae yr hîl wedi ei haddysgu a'i dwyn yn mlaen o un safon o ymddygiad a chred i un arall.

Awn yn mlaen at y Testament Newydd, ac allan o lawer o engreifftiau ellid enwi sylwn yn unig ar ddau gamsyniad difrifol yn ei dudalenau. Edrychwn ar yr achresau roddir gan Matthew a Luc i brofi fod Iesu wedi disgyn o'r llinach frenhinol, o dŷ a thylwyth Dafydd. Yn awr, sylwch, edrydd Matthew yn ogystal a Luc hanes y beichiogi gwyrthiol. Dywedant wrthym eill dau mai mab Mair oedd Iesu heb iddo un tad dynol. Ac eto maent ill dau yn ofalus iawn i roddi ini achres Joseph. Ond os nad oedd Joseph yn dad i Iesu pwy wahaniaeth wna ei achres? Ni phrofa yr un mymryn yn fwy ei fod yn disgyn o Dafydd neu Abram na'm bod i yn disgyn o honynt. Hawlid fod Iesu yn disgyn o Dafydd am fod dyn nad oedd yn dad iddo yn disgyn o hono! Yn mhellach, nid yw'r ddwy achres yn cytuno a'u gilydd. Gwahaniaetha Matthew a Luc oddiwrth eu gilydd yn nglyn ag oddeutu deugain o enwau. Mewn gair, mae'r achres roddir gan Luc yn hollol wahanol i'r un roddir gan Matthew, ac nid yw ymdrechion mwyaf enbyd duwinyddion wedi gallu creu hyd yn nod ddim byd yn debyg i gymmodiad rhyngddynt. Nid yn unig rhydd Matthew chwech-ar-hugain o genedlaethau rhwng Dafydd a Joseph, pan y rhydd Luc un-a-deugain; ond olrheiniant y disgyniad trwy achau hollol wahanol. Yn ol Matthew, enw tad Joseph oedd Jacob; yn ol Luc, Heli. Mae'n amlwg nas gallant fod

yn iawn ill dau, er fod llawer i ddamcaniaeth gywrain wedi ei dyfeisio er esbonio a chyssoni y gwahaniaethau hynod yma. Ymhòna y mwyaf poblogaidd o'r rhai hyn mai achres Joseph yw un o honynt, ac eiddo Mair y llall—meddylddrych cyfleus iawn, ond un haerir yn hollol, heb brawf, ac a wrth-ddywedir yn bendant gan eiriau yr efengylau o dan sylw. Naill mae Matthew neu Luc wedi gwneyd camsyniad, ac eto, pwy wahaniaeth yw? Dim o gwbl.

MYFYRDODAU PASG.

"Os bydd gwr marw, a fydd efe byw drachefn?"—Job 14 : 14.

Job sydd yn holi, ond ni fedr Job ateb. Sylwer ar ei eiriau, "Gwr a fydd marw, ac a dorir ymaith, a dyn a drenga, a pha le y mae?" Darllener y benod. Y mae Job yn amheus; ond y mae Cristnogaeth yn llawn hyder ffydd. Ac fel un sydd wedi ei ddwyn i fyny yn yr awyrgylch Gristnogol, yr wyf finau'n credu y bydd dyn, er marw, i gael byw drachefn. Ond medd yr amheuwr—ni ddywedwn y gwr amheugar—sut 'rych chi'n gwybod? Ni ddywedais fy mod yn gwybod; credu ddywedais. Yr wyf yn *credu* y cwyd yr haul yfory, ond nid wyf yn *gwybod*. Yr wyf yn credu, ond y mae'n fwy na allaf brofi. Rywbryd yn y dyfodol feallai, os parheir llinyn bywyd cyhyd i mi, ceisiaf ateb yr holiad, *Paham* yr wyf credu. Gall fod yn ddyddorol i bobl ieuainc gael gwybod opiniwn henafgwr ar bwnc y credu. Yn bresenol cyfyngaf fy sylwadau yn benaf i'r cwestiwn *Beth* wyf yn gredu yn merthynas i'r pwnc.

Nid oes amheuaeth nad yw anhawsderau credu i rai pobl yn llawer mwy heddyw nag oeddynt i'w tadau rai cenedlaethau yn ol. Y mae yspryd amheuaeth wedi cynyddu, gormes y synwyrau yn gwasgu yn fwy nag erioed, test y synwyrau yn cael ei ofyn, a geiriau fel eiddo Thomas yn cael ei gofyn—Oni chaf osod fy mys, oni chaf osod fy llaw. Anghofir mai nid busnes clust a llygad a llaw yw crefydd, ac mae yn ysprydol yn unig y rhaid barnu pethau ysprydol.

Gwn ei bod yn anhawdd profi dim ar y maes ysprydol yn groes i duedd a theimlad ac ewyllys dyn*; ond yr wyf yn gofyn am gydymdeimlad, tra fyddaf yn traethu fy llen. Credaf fod yn nyfnderoedd calon y mwyafrif mawr o ddynion y dymuniad am ail fyw; a chredaf hefyd fod y dymuniad hwnw mewn cydgordiad a gobeithion uwchaf a gore dynoliaeth; fod y gobaith hwn wedi bod erioed yn elfen gref a nerthol yn nyrchafiad y ddynoliaeth, yr hyn a bair i mi feddwl ei fod yn reddfol yn ein natur, wedi ei osod yno gan y Tad

*"He that complies against his will
Is of his own opinion still."—*Butler*—Hudibras III. : 3.

Gore ei hunan, yr hwn nid yw yn debyg o dwyllo ei blant.

Dwy erthygl fawr y ffydd wyddonol yw fod Mater ac Yni (matter and energy) yn anninystriol; fod pob peth sydd wedi bod unwaith yn parhau i fod byth, nad pa gymaint yr ymnewidia o ran ffurf. Pan fo pethau yn diflanu, nid ydynt ond megys yn ymguddio: nid oes y fath beth a myned allan o fodolaeth. Er engraifft, pan fo'r ganwyll wedi llosgi ymaith, nid yw ond wedi newid ei ffurf. Os yw mater ac yni felly yn aros, onid ymddengys yn gasgliad naturiol y bydd bywyd neu enaid, y pwysicaf o'r tri yn gyffelyb yn aros?

Ebe Virgil, y bardd Rhufeinig, fwy na dwy fil o flynyddau yn ol,—

Un bywyd red trwy'r cread maith i gyd,
Un Yspryd, eiddo'r Mwr, y môr, y byd,
Ehediaid nen, ymlusgiaid daear lawr,
Yn nghyd a phreswylyddion y Mor Mawr
Pob bywyd i'r Un Meddwl ufuddha,
Ac yn yr oll Un Enaid doeth a da.

Clywais âdarlith ddyddorol yn ddiweddar ar y Pili Pala*—The Story of the Butterfly—gyda *Lantern Slides*, yn dangos cyflwr a phrydferthwch amrywiol y creadur bach yn holl *stages* ei fodolaeth—yn gyntaf, yn fath o ŵy, yna'n gynrhonyn (grub, larva), yna'n chrysalis (y cyflwr yn yr hwn y mae'n ymddangosiadol farw) ac yn olaf y Pala ei hunan, wedi dyfod i feddiant o adenydd, ac megys o fyd newydd. Y peth oedd yn ymgynyg i'm meddwl i oedd—Mai un bywyd berthynai i'r pedwar *stage*, yr un hedyn byw yn rhedeg trwy yr oll, yn cynal ei hunaniaeth† yn yr oll. Awgrymir rhywbeth tebyg gan Caledfryn:—

Onid oes mewn llindysyn—a'i feroes
Wrth farw'n ei blisgyn,
A chodi yn iach wed'yn,
Eglurhad goleu ar hyn?

Myn rhai gyffelybu perthynas enaid a chorff i berthynas y Dôn a'r Piano, ac eraill i'r Badwr a'r Bad; yn ol y naill awgrymir y bydd yr enaid yn marw pan fydd y corff yn marw, nid felly yn ol y llall. Fe dderfydd am y Dôn pan ddinystrir y Piano, ond fe all y badwr oroesi'r bad. Nid yw'r gyffelybiaeth gyntaf yn deg. Nid yn y Piano 'roedd y dôn, ni fu erioed yno; ond yn y dyn oedd yn chwareu'r piano, ac fe all y dyn oroesi'r piano.

Yn fy ngolwg i y mae Mater a Meddwl yn ddau beth, yn perthyn i ddau fyd hollol wahanol. Sylwer fod i fater hyd a lled, uchder a dyfnder, pwysau, rhanau, &c.; nid felly i feddwl. Ni freuddwydiai neb am fesur meddwl, neu bwyso teimlad, &c. Yn y byd materol nid oes y fath beth a swn na gwres na lliw, nac un math o synwyriad (sensation) o gwbl. Nid oes yno ond cryniadau (vibrations). Rhaid wrth glust i droi'r cryniadau yn swn, a llygad i'w troi yn lliw. Perthyn y synwyriadau, nid i fater, nid i beiriant difywyd; nid i ryw *beth*, ond i ryw *un*, i feddwl byw, i *berson* y tu cefn i'r holl synwyrau. Er i'r gloch ganu a'r gofyniad gael ei anfon—Are you there? Ni cheir un ateb oni fydd yno rywun—ryw *berson* i roi yr ateb, i ddweyd "Yes."

Y gwir yw cyn y gellir cael teimlad allan o'r hyn nad yw'n meddu'r gallu i deimlo, neu feddwl allan o'r hyn na fedr feddwl; cyn y ceir uniondeb allan o beth nad edwyn uniondeb, neu gyfiawnder allan o'r hyn sy mewn ystyr foesol yn ddiofal (indifferent); cyn y gellir cael allan o fater y teithi neu'r priodoleddau sy'n gwneud dyn, bydd yn rhaid gwneud mater i olygu yr hyn

---

* "Iar fach yr Haf," yn Ngheredigion; "Brith y Loyn," neu'r "Llindysyn" yn y Gogledd.

† Wrth hunaniaeth y golygir parhad yr hunan—*identity*.

a olyga meddwl, ac wrth hyny rho'ir i fyny yr hyn y dadleuir yn ei gylch*

Eto, nid oes yn y byd materol ddim o'r fath beth ag

HUNANIAETH

gwirioneddol, nid oes ond hunaniaeth ymddangosiadol. Y mae pob peth materol, fel yr afon, mewn cyflwr o newid parhaus. Ni ellir myn'd trwy yr un afon ddwy waith. O'r tu arall y mae'r enaid yn fod hunaniaethol (identical), sengl, syml,—yn cynal ei hunaniaeth drwy holl flynyddoedd bodolaeth y corff—ac wed'yn ;—y Fi'n parhau yr un o'r dydd y cymerodd feddiant o'r corff hyd y dydd y gadawodd ef. "Claddwch fi," ebe Socrates, "os gellwch fy nal, ond pan fyddoch wedi claddu fy nghorff, peidiwch dweyd eich bod wedi claddu Socrates."

Pan yn meddwl am y cyfnewidiad mawr a adwaenir fel

MARWOLAETH,

fe weddai i ni gofio'r gair—Gosodwyd i ddynion farw un waith, a chofio'r cyngor a roddir i ni fel Cristnogion, i beidio galaru fel rhai heb obaith. Yn ol y Pregethwr fe ddychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ond yr Yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef. Y "cig a'r gwaed" i'r bedd yr ant, a dim yn mhellach ; ond yn ol awgrym yr apostol fe gymer yr yspryd afael ar gorff newydd. Credwn mai dyna feddylia pan y dywed fod yn rhaid i'r llygradwy wisgo anllygredigaeth a'r marwol wisgo anfarwoldeb. Y mae corff anianol ac y mae corff ysprydol. Mewn man arall sonia am gorff, enaid, ac yspryd ; ond cyfyngwn ein hunain yn bresenol at y dosparthiad deuol (dual). Y corff anianol yw'r ty o bridd y trigiana'r dyn ynddo yn ystod 70 neu 80 blynyddoedd ei fodolaeth ddaearol ; a'r corff ysprydol yw'r enaid, y person sy'n aros wedi maluriad y corff anianol—y rhywbeth anweledig hwnw sydd yn gweled, yn teimlo, yn meddwl, yn ewyllysio, yn caru, ac yn casglu yn nghyd y profiadau amrywiol hyn i undod ei fywyd personol.†

Nid yw'r *Anastasis*, y gair Groeg a gyfieithir yn

ADGYFODIAD

yn golygu esgyniad y corff o'r bedd, eithr esgyniad yr yspryd oddiwrth y corff marwol i feddiant o'r corff ysprydol ; hyny yw, allan o'r daearol dŷ y sonia yr apostol am dano, i'r adeilad sydd i ni gan Dduw, sef y tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd (1 Cor. 5 : 1).

"TEYRNAS NEFOEDD,"

medd yr Athraw, "o'ch mewn chwi y mae" (Luc 17 : 21) ; o fewn hefyd y mae'r deyrnas arall. Y dyn ei hunan sy'n gwneud pob un o'r ddau. Wrth hyn gellir deall, mae nid lle ond cyflwr olygir wrth bob un o'r ddau ; nid ardal faterol ond cyflwr ysprydol ; nid trigfan allanol, ond cyflwr mewnol ; nid lle i fyned iddo, ond profiad i ddyfod i ni.

"Teml Dduw ydych," medd yr apostol (1 Cor. 3 : 16). Nyni sy'n adeiladu'r deml hono, a gwnawn ein rhan tuag at hyny bob dydd ; pob gweithred o'r eiddom megys maen yn ffurfio rhan o'r defnydd—da neu ddrwg—sydd yn myned i adeiladu'r deml a'i gwneuthur y peth ydyw‡

---

* Minot Judson Savage.

† Momerie.

‡ We are builders of the city,
All our joys and all our groans
Help to rear its shining ramparts ;
All our lives are building stones.
Y pen Rabbi, Felix Adler. E.H.R., 253.

Mor bwysig gan hyny yw i ni fod yn ofalus pa fath ddefnyddiau osodwn yn adeilad ein bywyd. Camsynied yn fawr wnawn os tybiwn fod amser a lle yn newid dim ar y dyn o ran ei gyflwr moesol. Os lleidr neu lofrudd fydd y dyn yn Nghymru, fe dystia cydwybod mai yr un peth fydd, serch iddo ffoi i'r Amerig, neu ddianc trwy borth marwolaeth. Fe aiff a'i gydwybod gydag ef ac nid yw ddichonadwy i ddyn ddianc tystiolaeth ei gydwybod ei hunan. Fel y dywed yr hen Iolo—"Cydwybod euog dan y fron, Gwae'r un a deimlo'r bicell hon, Ni wel, ni phrawf ddaioni Duw." Ni ddichon angeu ei hunan droi pechadur yn sant ar unwaith. O ran ei gyflwr moesol ac ysprydol, yr un dyn fydd bum munyd ar ol marw ag oedd bum munyd cyn marw.

Y meddwl yw ei le ei hun,
Ac ynddo ei hun all wneud o uffern nef,
Ac o nef uffern*—*John Milton*, I. 307.

"Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, . . . a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt."—Dad. 14 : 3.

Wrth ystyried y cwestiwn o

DDYDD BARN,

gweddai i ni feddwl llai am y llythyren sydd yn lladd, a mwy am yr yspryd sydd yn bywhau. Dengys y Beibl fod y Dwyreiniwr yn ymadroddi yn fwy ffigyrol, cymhariaethol, barddonol, nag a wnawn ni pobl hinsawdd mwy oer y gorllewin. Pan ddarllenwn mewn gwahanol fanau, er engraifft y bydd Duw yn barnu, Moses yn barnu, Crist yn barnu, yr angylion yn barnu, y deuddeg apostol yn barnu deuddeg llwyth Israel, ac yn ngolwg ei ddysgyblion ei hunan Mohamed hefyd yn barnu, ac i'r perwyl hyny yn eu galw hwynt oll yn nghyd i ddyffryn Jehosaphat, i glywed y ddedfryd. Beth olygir wrth hyn oll? Tybiwn mai'r ystyr syml yw, y bernir pob un yn ol y defnydd a wnaeth o'i fanteision a'i gyfleusderau. "Pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe" (Gal. 6 : 7); ac mae'r hau a'r medi yn myned yn y blaen bob dydd. Medwn heddyw o'r hyn a hauwyd ddoe—y presenol o hyd yn ffrwyth y gorphenol. Yn yr ystyr hyny, y mae'n ddydd barn bob dydd, heddyw ac yfory a threnydd a thranoeth. Wrth gwrs fe all fod adegau pan fydd y Barnu yn fwy amlwg, yn fwy hawdd i'w ganfod a'i sylweddoli fel Barn. Peth arall sy'n amlwg i mi, ac yn tarddu oddiar yr un syniad yw, ei bod yn bosibl i'r Pagan sydd wedi bod yn ffyddlawn i'w oleuni gore, sefyll yn uwch mewn cymeradwyaeth na'r Cristion fydd wedi syrthio yn fyr o'i bosibiliadau—"Llawer o'r Dwyrain a'r Gorllewin" ar y blaen ar rai o "blant y deyrnas."—Matt. 8 : 11, 12. Bydd y cynhauaf bob amser yn ei brif nodweddion yn ol yr hyn oedd yr hau. Eglurebwn : Megys nad yw arian Prydain yn *current coin* teyrnasoedd y Cyfandir; yn gyffelyb, nid yw clod a mawredd bydol, na chyfoeth na meddiant daearol o un math —er cymaint eu mawrygir genym—yn *current coin* y deyrnas y mae'r Iesu yn frenin arni; a diolch i Dduw fe ellir gyda phriodoldeb mawr gyfleu geiriau'r hen emyn at rai oeddynt o nifer tlotaf dynion y ddaear,

Er bod yn dlawd o gyfoeth byd,
'Roedd ganddynt olud hawddgar.

Y mae cyfundrefn y

TAN A'R BRWMSTAN,

er mor boblogaidd unwaith, wedi marw yn mhlith pobl ddeallus heddyw; ac fel canlyniad mae'r syniad

---

* The mind cannot be changed by place or time,
The mind is its own place, and in itself
Can make a heaven of hell, a hell of heaven.
Paradise Lost, Book I. : 253.

am berthynas cosp â dyn ac â Duw wedi cymeryd agwedd wahanol. Fel yr awgrymwyd yn barod, y dyn ei hunan sydd yn gwneuthur ei nefoedd, y dyn ei hunan sydd yn gwneuthur ei uffern, a chydwybod y dyn ei hunan sydd yn gweinyddu'r ddedfryd, pa un ai gwobr neu gosp fydd. Pan esyd dyn ei fys yn y ganwyll nes ei llosgi, y dyn ei hunan sydd yn troseddu ar un o ddeddfau natur, ac efe raid ddioddef y gosp. Mae'n wir mai Duw gysylltodd y gosp a'r trosedd, a Duw hefyd roddodd i ddyn y cyneddfau angenrheidiol i'w alluogi i ddysgu'r wers fod yn rhaid iddo ufuddhau i ddeddfau ei fodolaeth neu ddioddef y canlyniadau. Y dyn sydd yn troseddu, a'r dyn raid edifarhau a pheidio troseddu mwy.

Ein dyledswydd amlwg bob amser yw ceisio nefoedd yma ac yn awr. Yr unig scaffaldau a'n galluogant i'w gyrhaedd, maent wedi eu cyfansoddi o'r defnyddiau a wnant i fyny'r bywyd perffaith—gwleidyddol, cymdeithasol, moesol, crefyddol. Edrychwn atynt bob dydd. Y mae hen ddywediad—Nad yw Duw ddim yn gwneuthur i fyny ei gyfrifon, ddim yn setlo ei gownts, â dyn bob nos Sadwrn. Nid yw hyny, feallai, er yn ymddangosiadol gywir, ddim yn hollol felly. Y mae'r fath beth yn bod a serio'r gydwybod, a dwyn dyn i gyflwr o anwybodolrwydd, lle nad yw yn sylweddoli ei sefyllfa; yn debyg i'r dyn sydd wedi myned i gysgu i ben odyn galch —y mae'r nwy wedi ei orchfygu a'i gorff wedi ei losgi'n ulw. Oes, y mae'r fath beth a *Fireless Hell*, y tân megys wedi ei enhuddo, cydwybod wedi myned i gysgu, ac fel pe'n analluog i gyflawni ei dyledswyddau. Y mae yna eisoes ddinystr, ond pan ddeffry'r gydwybod euog, ceir dealldwriaeth deg beth a feddylir wrth uffern.

Pan ddiflana'r dyn drwy y "geledig gul adwy," credwn y caiff allan fod y gwahaniaeth rhwng pethau

HWNT I'R LLEN

yn llawer llai nag y tybir yn gyffredin. Awgrymir cymaint a hyny gan Milton,—

Beth os nad
Yw'r ddaear hon ond cysgod nef; os yw
Pob peth yn debyg yn y naill i'r llall,
Tebycach nag y tybir yma eu bod*?
—*C.G. 5 : 672.*

Mae'n wir y gedy pawb ar ei ol ei gorff daearol, ei dai a'i diroedd, ei aur a'i arian, ei glod a'i fawredd daearol —ar ol; nid aiff dim gyda ni i'r nefoedd, na ffon, nac ysgrepan, dim ond ein hunain noeth, ein dyn, y peth ydym, y peth wnaethom o honom ein hunain. Byddwn ni yno, ac fe fydd eraill yno; os gwir awgrym yr emyn—Y mae'r gymdeithas yma'n gref, Ond yn y nef hi fydd yn fwy—bydd gan rai o honom fwy o gyfeillion y tu hwnt na'r tu yma. Nid i wlad dramor gan hyny, yr awn, cawn ein hunain gartref yno megys yma.

Os cofiwn yn iawn, un o'r prif wersi y bwriadai Miss Elizabeth Stuart Phelps ei ddysgu yn ei "Gates Ajar" yw hyn, y bydd mwyniant dyn yn y byd newydd rywbeth ar hyd yr un llinellau ag yn y byd hwn. Os felly, gan y bydd pob un yn cychwyn yno o'r fan y gadawodd yma, gallwn gasglu yn naturiol y bydd yr hwn sydd wedi byw bywyd gwasanaethgar a theilwng yma, yn dechreu ei fywyd newydd mewn amgylchiadau mwy ffafriol na'r hwn sydd wedi

---

* What if earth
Be but the shadow of heaven, and things therein
Each to other like, more than on earth is thought.
—*P. L.*, 5 : 481.

† Bu Miss Phelps, yr Awdures Americanaidd enwog, farw, mewn oedran teg, ychydig fisoedd yn ol.

treulio ei fywyd yn ddiffrwyth. Byddwn o dan lywodraeth yr un Brenin Mawr yno ag yma, a chredwn y caiff pob un gyfleusdra yno fel yma, i fyned rhagddo—rhyddid, os myn, gyda manteision amgenach i dyfu a dadblygu.

Gofynodd rhywun unwaith i bregethwr y Methodistiaid—

A ADWAENWN NI EIN GILYDD

yn y nefoedd? A'r ateb ysmala a gafodd oedd—A dybi di y byddwn ni'n ddwlach yno nag yma? Fe ddywedir i'r ddau ddysgybl oedd ar eu ffordd i Emmaus gynt, fethu adnabod Iesu—eu hathraw anwyl. Credent mai'r garddwr oedd. Ond wedi deng munyd o ymgom diflanodd pob amheuaeth. Os y *ni* yma fydd y *ni* yno; os adwaenwn ni ein hunain fel *yr un*, os parheir ein hunaniaeth, os parheir ein personoliaeth, ein profiad, ein cof, ni fydd un anhawsder i adnewyddu eto yn y nefoedd y gyfeillach felus a dorwyd yma ar y ddaear.

Un gofyniad eto cyn terfynu, a dyma fe—A oes rhyw fath o

GYMUNDEB RHWNG NEFOEDD A DAEAR?

A ydyw'r nefoedd yn gweled y ddaear? A ydyw trigolion y nefoedd yn gweled trigolion y ddaear? Pwy all ateb? Pwy all ddweyd Ydynt? Pwy all ddweyd nad ydynt? Yr wyf fi yn gorfod ateb eto, Nid wyf yn gwybod; ond credaf eu bod. Caraf gredu eu bod. Yr wyf am gredu eu bod. Y mae yn naturiol ac yn felus ac yn rhoi mwyniant a chysur i gredu eu bod. Y mae hyny oll mewn cydgordiad perffaith a gofynion uwchaf rheswm a chalon a chydwybod y ddynoliaeth.

Nid yw y rhai sydd heb eu geni yn gwybod dim eto am fywyd ar y ddaear; ond gŵyr y rhai sydd wedi eu geni rywbeth, a gwnant ddarbodaeth ar gyfer eu dyfodiad. Pwy ŵyr nad yw'r genedigion—y rhai sydd wedi eu geni—i'r nefoedd, yn aros ein geni ninau yno? Pwy ŵyr nad i barotoi lle i ni yr aethant yno? I lawer, ymddengys hyn oll ond megys ffug a dychymyg disail. O'r gore, ond gallwn fod yn sicr o hyn, mai yr hyn sydd ore a fydd; yr hyn sydd ore i sant, a'r hyn sydd ore i bechadur, hyny yw, yr hyn fydd fwyaf ffafriol i'w ddaioni a'i les uwchaf. Nid barddoniaeth yw hyn, ond gwirionedd syml ac anocheladwy, yr hyn fydd er da i bawb dynion ei gredu.* Gweled a gwybod; y mae i'r geiriau fwy nag un ystyr. Cofiwn am *ddyn dall*, y dywedai cyfaill o gyfreithiwr unwaith am dano y *gwelai* ac y *gwyddai* fwy nag un dyn yn y plwyf. Nid ar dir y synwyrau yr ysgrifenai awdwr yr epistol at yr Hebreaid pan yn son am y "cwmwl tystion" (Penod 12: 1, 2), eto credwn ei fod yn ysgrifenu am yr hyn y gwyddai rywbeth am dano. Tybiwn mai'r tystion yn ei feddwl oedd Enwogion y Ffydd a enwir ganddo yn y benod flaenorol. Dychymyga eu gweled yn edrych i lawr oddiar lwyfanau'r nefoedd ac oddi yno yn gweled ac yn gwylied plant y ddaear yn rhedeg yr yrfa ysprydol. Teimlant ddyddordeb ynddynt. Cydymdeimlant a hwy yn eu holl ymdrechion teilwng, ac yn ddiameu, hyd y gallant, calonogant hwy, helpiant hwy.

Gweddai i ni gofio hefyd nad yw y byd ysprydol ddim yn mhell oddi wrthym ninau. Nid yw'r llen rhyngom ond llen deneu iawn, a'r hen Afon, fel y gelwir hi weithiau, mae yn wastad yn rhedeg yn ein hymyl, ac ynddi, yn ngeiriau Islwyn aml i "ryd, hawdd i enaid groesi." A pha beth yn fwy naturiol nag i ninau feddwl, a chredu, fod ein hanwyliaid ymadawedig ar bwys, yn ein hymyl, ie yn rhywfodd yn bresenol gyda ni, yn ein gweled, yn ein gwylied, ac o bosibl yn ymwybodol nid yn unig o'r hyn wnawn, ond hefyd o'r hyn fedd-

* Theodore Parker—*Immortal Life.*

yliwn ; yn cael eu blino pan droseddwn, eu boddhau pan fyddwn yn gwneud ein goreu i rodio'r ffordd dda—Gan edrych ar Iesu, pen tywysog a pherffeithydd ein ffydd.

Ystyriwn hyn oll a meddyliwn—Pa ryw fath ddynion a ddylem ni fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb. 2 Petr 3 : 11.

R.J.J.

YMSON Y MYFYRIWR.

Yn gynar yn Mawrth diweddaf cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol

Cynghrair yr Eglwysi Rhyddion

yn Portsmouth. Rhag i'r darllenydd dynu casgliad camarweiniol oddiwrth y teitl rhwysgfawr uchod, nodaf, cyn myned yn mhellach, na olyga'r ymadrodd "Eglwysi Rhyddion" ddim rhagor nag Eglwysi rhydd oddiwrth bob ymyraeth ar du y wladwriaeth. Y mae pob eglwys Undodaidd yn rhydd mewn dau ystyr—rhydd oddiwrth lyffetheiriau credoau ac o bob cysylltiad a'r wladwriaeth ; tra yn yr ystyr olaf yn unig yr hawlir rhyddid gan yr Eglwysi a wnant i fyny y cynghrair uchod. Perthyn yr eglwysi hyn i luaws o enwadau—Methodistiaid (o bob math), Annibynwyr, Bedyddwyr, &c. Nid yw'r cynghrair yn ddigon rhydd eto i gynwys yr Undodiaid. Gwahaniaethau athrawiaethol sydd yn cyfrif am fodolaeth bron yr oll o'r enwadau hyn—gwahaniaethau dibwys iawn yn fynych. Er cychwyniad cyntaf pob un o honynt y mae'r

gwahaniaethau athrawiaethol

hyn wedi eu cadw ar wahan—pob un, yn gyndyn, yn parhau yn glymedig wrth ei gredo fawr neu fach ei hun. Ychydig flynyddau yn ol, fodd bynag, daeth yn amlwg fod llawer o bynciau y gallent eu cyd-drafod mewn cynhadledd gyhoeddus er budd i bob un o honynt, heb gyffwrdd a'u credoau gwahaniaethol, nac iselhau y muriau a'u cadwant ar wahan yn fwy nag oedd y teimlad enwadol yn caniatau. Er ei gychwyniad y mae'r mudiad wedi enill tir flwyddyn ar ol blwyddyn ; eleni tybid fod y mwyafrif mawr o Eglwysi caeth-gredoawl Rhyddion Lloegr a Chymru yn cael eu cynrychioli yn Portsmouth. Ni throf at hanes gweithrediadau yr un gynadledd grefyddol gyda mwy o awydd a phleser nag at eiddo'r gynadledd hon. Ynddi cymer dynion blaenaf pob un o'r enwadau ran. A disgyn oddiar wefusau rhai o honynt sylwadau a ddangosant yn mha gyfeiriad y mae'r

Awel yn Chwythu.

Byddai'r gair gwynt yn y cysylltiad hwn yn un rhy gryf, am yr awgryma hwn ryw gymaint o gyflymder. Mwy tarawiadol desgrifiad o bob peth wneir gan Eglwysi Rhyddion Prydain yw'r gair awel—rhywbeth araf, tawel, ysgafn, diniwed. Llawn o ddyddordeb oedd hanes yr oll o'r gweithrediadau. Yr oedd yn agos yr oll o'r anerchiadau newydd-deb swynol a'm cludai yn mlaen trwyddynt nes y teimlwn rhyw gymaint o'r brwdfrydedd a enynid (fel yr adroddir) yn y rhai a'u clywent. Er hyn, ni ddarfu i mi sylwi ar gofnod o un

meddwl mawr, o un anerchiad neu bapyr fydd yn debyg o dynu sylw ar ol i'r gynadledd fyned i dir anghof, ni welais un arwydd fod yn yr Eglwysi Rhyddion un duedd i symud o'r hen lwybrau i lwybrau newydd. Tynwyd fy sylw cyntaf gan benawd araeth y Llywydd—

"Y Gwirionedd Presenol."

Yn y rhan gyntaf, cyffyrddodd â'r gogwydd priodol i grefyddwyr Rhyddion mewn perthynas i faterion gwleidyddol. Cyduna'r mwyafrif o'n darllenwyr yn ddiau â'r crynodeb byr a ganlyn o'i sylwadau ar y mater hwn, sef y dylai pob crefyddwr Rhydd deimlo dyddordeb yn ngwneuthuriad ac yn ngweinyddiad ein cyfreithiau, ac yn y dynion a ddewisir i fod yn ddeddfwneuthurwyr. I ni yn Nghymru ymddengys yn hynod fod eisiau dyweyd hyn o gwbl. Dyna beth mae Ymneillduwyr Cymru wedi bod yn wneud er cychwyniad Ymneillduaeth. Nid yw gwleidiadaeth, ag edrych arni yn y goleu iawn, wedi'r cyfan, ond crefydd mewn ymarferiad. Nid dyna fel y mae yn Lloegr, fodd bynag, a barnu oddiwrth rai o sylwadau'r llywydd. Gan lawer yno—y mae rhai o honynt yn Nghymru hefyd—ystyrir gwleidyddiaeth fel aflan-beth, na ddylai un crefyddwr wneyd dim ag ef, ac felly mae angen dyweyd ac ail-ddyweyd yn barhaus fod perthynas agos rhwng y ddau. Hytrach yn ochelgar oedd y gweddill o'r anerchiad. I'r gofyniad,

"Beth sydd yn Blino'r Eglwysi?"

y mae'r ateb, hwyrach, yn anfoddhaol. Cydnebydd fod rhywbeth allan o le—fod yr eglwysi yn colli'r afael ar y bobl fu ganddynt unwaith. Ond nid yw yn llwyddianus yn ei ymchwil am sedd y drwg. Y mae llawer o achosion i hyn yn ddiau. Ond ai nid methiant neu amharodrwydd yr eglwysi i gyfaddasu eu hunain i'r amserau ydyw'r penaf? Oddiwrth araeth y llywydd, aethum at bapyr

Syr Oliver Lodge

ar y "Datguddiad Cristionogol oddiar safbwynt gwyddor." Dyddorol yn wastad yw Dr. Lodge, gan nad ar beth yr ysgrifena neu y siarada. Ni ellir dyweyd cymaint a hyn am bob gwyddonwr. Ond ar wahan i ddyddordeb, pan y gwelaf ei enw, fe'm meddienir gan chwilfrydedd cryf i wybod beth feddylia un o wyddonwyr blaenaf ein dydd ar faterion crefyddol—materion ydynt tu allan i gylch ei efrydiaeth arferol. Nis gwn ai iawn fyddwn wrth restru Syr Oliver gyda'r Duwinyddion Newydd. Y mae'r amldra gyda'r hwn y gwna ei ymddangosiad ar lwyfanau eu cyfarfodydd yn awgrymu o leiaf ei fod mewn cydymdeimlad a'u safle. Gan nad beth am hyn, nid yw yn hen dduwinydd — neu dduwinydd iawnffyddol. Rhoi crynodeb o'r papur ni fedraf. Yn wir, nid gwaith hawdd na dymunol fyddai cyfieithu ei bapyr i Gymraeg y medrai'r darllenydd ei fwynhau, a derbyn budd oddiwrtho, hyd yn nod gyda chynorthwy geiriadur. Gair mawr y papyr yw'r gair

Ymgnawdoliad.

Ond cael syniad gweddol glir beth olyga'r awdwr wrth y gair hwn, byddwn mewn meddiant o'r agoriad i'w feddwl canolog ar faterion mawr bywyd ysprydol dyn. Beth, mewn byr eiriau, olygir wrth ymgnawdoliad. Y mae Duw, ynddo ei hun, yn mhell uwchlaw amgyffred dyn. Ond fe ymgnawdolodd Duw yn mherson Iesu — ymddangosodd Duw mewn cnawd dynol er amlygu ei hun i'r byd mewn modd y gallai dynion ei amgyffred. Y mae Duw yn ymgnawdoli yn mywydau dynion eraill hefyd, ond nid yw wedi gwneyd hyny yn yr un cyflawnder ag yn Iesu. Y mae'r syniad hwn, rhaid cyfaddef, yn un swynol dros ben, ac yn un a apelia yn gryf at lawer o Undodiaid. Ai nid yw yn bosibl mai'r drychfeddwl hwn o ymgnawd-

oliad fydd, wedi'r cyfan, y cyfrwng i ddwyn oddiamgylch yr

UNDEB RHWNG EGLWYSI CRED

y mae eneidiau goreu yr Eglwys Gristionogol--yn mhob cangen o honi—yn dyheu am dano. Dyma rai o benawdau yr anerchiadau a'r papyrau ereill—"Eschatology" (ni fedraf y gair Cymraeg arno) ond golyga y gangen o dduwinyddiaeth sydd yn ymhel a diwedd pethau), "Diwygiad yr Ysgol Sul," "Yr Eglwys a'r Ysgol Sul," "Yr elfen Hanesiol yn y ffydd Gristionogol," "Yr anesmwythyd yn myd Llafur," "Crist yn sylfaen yr Eglwys," "Dadgysylltiad yn Nghymru," "Moesau y Wasg." Nid yw hyn ond rhan o'r oll. Ond dengys cymaint a hyn mor aml-ochrog yw'r materion yr ymdrinir a hwynt yn nghwrs yr ychydig ddiwrnodau y cyferfydd y Cynghrair. Ar ol manwl ddarllen yr oll o'r hanes, beth ddywedaf? Dywedaf hyn--fod y mudiad hwn yn un o arwyddion mwyaf calonogol ein hamser. Dengys, o leiaf, fod eglwysi iawnffyddol ein gwlad wedi ymgodi i'r safle y gallant gadw'r elfenau gwahaniaethol allan o olwg am dymor byr, er cyd-ymgynghori yn nghylch pethau na chyffyrddant yn uniongyrchol a thir gwahanddedig enwadaeth. Y mae hyn yn

ENILL MAWR.

Byddai cymaint a hyn yn amhosibl hyd yn nod tu fewn i ffiniau cof rhan fawr o'n darllenwyr. Y mae'r ffaith fod hyn wedi dod yn bosibl mewn mor lleied o amser yn rhoi sail gref i'r gobaith nad yw'r adeg yn mhell pan na fydd ond un eglwys fawr yn yr oll o Brydain, arwyddair yr hon fydd—"mewn pethau hanfodol, undeb; mewn pethau di-bwys, amrywiaeth; yn mhob peth, cariad."

MYFYRIWR.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD XII.—(*Parhad*).

TEYRNAS DDUW FEL DYFODIAD GALLU Y TLODION.

Ar lawer ystyriaeth, ynte, mudiad gwragedd a phlant oedd y grefydd newydd-anedig. Ffurfiai y rhain fath o gorph-lu bychan o gylch ei frenhiniaeth ddiniwed, gan dalu iddo aml warogaeth fechan a'i tra boddlonai; yn ei alw yn "fab Dafydd," yn gwaeddu "Hosanna," ac yn cludo palmwydd o'i amgylch. Mawr hoffai Iesu weled yr apostolion ieuainc hyn, rhai na pharent dramgwydd i neb, rhai a daflent eu hunain o'i flaen, a rhoddi iddo deitlau nas meiddiai gymeryd ei hun. Gadawai iddynt ei alw wrth y teitlau hyn, a phan ofynent iddo os oedd yn eu clywed, atebai mewn dull anmhenodol fod yn hoff gan Dduw foliant oddiar wefusau ieuainc.

Ni chollai un achlysur i ail-adrodd fod y rhai bychain yn fodau cysegredig, fod teyrnas Dduw yn perthyn i'r plant, fod yn rhaid myned yn blentyn er myned i mewn iddi, y dylasid ei derbyn fel plentyn, fod y Tad Nefol yn cuddio ei chyfrinion oddiwrth y doethion ac yn eu dadguddio i blant. Y mae'r drychfeddwl o ddisgybl iddo ef bron yn un a bod yn blentyn. Un diwrnod, pan yr oedd rhyngddynt un o'r dadleuon hyny a godent yn fynych yn eu plith, cymerodd Iesu blentyn, a

gosododd ef yn eu mysg, gan ddywedyd, "Wele ef; yr hwn sydd ostyngedig fel y bychan hwn, sydd fwyaf yn nheyrnas Dduw."

Mewn gair, maboed, gyda'i naturioldeb dwyfol, gyda symledd a gorfoledd plentyndod, oedd i gymeryd meddiant o'r ddaear. Credai pawb fod dyfodiad y deyrnas a ddisgwylid gymaint wrth y drws. Gwelai pawb eu hunain yn eistedd ar orsedd wrth ochr y meistr. Rhannent y lleoedd yn eu mysg; ceisient gyfrif y diwrnodau. Gelwid hyn y "newydd da"; nid oedd iddo enw arall. Symid breuddwyd pawb yn y gair *paradwys*, gair a fenthycasid yn yr Hebraeg, fel yn ieithoedd ereill y dwyrain, o'r Berseg, ac yn golygu parciau brenhinol; gardd hyfryd, lle y parheid yn dragywydd i gario yn y blaen y bywyd swynol a arweinid is y rhôd. Am ba hyd y parhaodd y breuddwyd hwn ni wyddis. Ni fesurai neb amser tra y parhaodd y weledigaeth hudol hon, mwy nag y mesurir breuddwyd. Rhoed terfyn ar barhad; yr oedd wythnos fel canrif. Ond pa un ai mis ai blwyddyn ydoedd, yr oedd y breuddwyd mor hardd, fel y mae dynoliaeth wedi byw arno byth wed'yn, a'n cysur eto yw ceisio casglu y persawr pell. Ni fu'r fath lawenydd erioed yn chwyddo y fynwes ddynol. Am foment, dan ddylanwad yr ymdrech hon, y fwyaf a wnaeth erioed i ymgodi uwchlaw y blaned hon, anghofiodd dynoliaeth y pwysau plwm a'i daliai ar y llawr, a holl waeon y bywyd isel hwn. Dedwydd yr hwn fedrodd weled a'i lygaid doriad y wawrddydd hon, ac edrych, pe ond am ddiwrnod, ar y weledigaeth ddigymhar. Ond dedwyddach fyth, fe ddywedasai Iesu wrthym, yr hwn na welodd yr un breuddwyd, ond a grea ynddo ei hun y weledigaeth ddwyfol, heb freuddwyd y mil blynyddoedd, heb baradwys ledrith, heb arwyddion o'r nef; ond drwy uniondeb ei ewyllys a swyn barddonol ei enaid, a fedr greu o newydd yn ei galon wir deyrnas Dduw.

PENNOD XIII.

Neges Ioan o'r Carchar at Iesu.——Marwolaeth Ioan.——Perthynas ei Ysgol ag eiddo Iesu.

Tra yr oedd Galilea lawen yn dathlu, drwy wleddoedd, ddyfodiad ei chariadfab, yr oedd Ioan drist yn ei garchar yn Machero, yn dihoeni wrth ddisgwyl a dyheu. Cyrhaeddodd ato y son am yr athraw ieuanc a gyfarfuasai rai misoedd o'r blaen. Dywedid fod y Messiah y rhagfynegwyd am dano gan y proffwydi, sef yr hwn oedd i adsefydlu teyrnas Israel, wedi dod a dangos ei bresenoldeb yn Ngalilea drwy ei ryfedd weithredoedd. Dymunai Ioan ymchwilio i wirionedd yr hanes, a chan ei fod yn cyfathrachu yn rhydd a'i ddysgyblion dewisodd ddau o honynt i fyned at Iesu yn Ngalilea. Cafodd y ddau ddisgybl Iesu ar uchafbwynt ei enwogrwydd. Synwyd hwy gan yr arwyddion o lawenydd a'i cylchynai. Synwyd hwy, oeddynt gynefin ag ympryd a gweddi daer, ac a bywyd llawn o ddyheadau, gan eu symudiad disymmwth i awyrgylch lawn o lawenydd a gwledda. Rhoddasant eu neges i Iesu: "Ai ti yw yr hwn sydd i ddyfod?" A raid i ni ddisgwyl neb arall? Atebodd Iesu, yr hwn na phetrusai o hyn allan ddesgrifio ei hun fel y Messiah, drwy fynegi y gweithredoedd oeddynt i arwyddo dyfodiad teyrnas Dduw, sef iachad y cleifion, a'r newydd da o iachawdwriaeth i'r tlodion. Yr oedd wedi gwneuthur yr holl weithredoedd hyn. "Gwyn fyd," meddai, "yr hwn na'm amheua ddim." Ni wyddis a gafodd yr ateb hwn Ioan Fedyddiwr yn fyw, ac os do, yn mha ysbryd y derbyniwyd ef gan yr ymprydiwr llym. A fu ef farw yn y sicrwydd fod yr hwn y tystiolaethodd am dano eisioes yn fyw, neu a goledda unrhyw amheuon parthed cenhadaeth Iesu? Nid oes genym ddim goleuni ar y mater. Pan gofiwn fod ei ddilynwyr wedi ffurfio ysgol barhaodd yn hir ochr yn ochr a'r Eglwysi Cristionogol, tueddir ni i gredu, er cymaint

meddwl Ioan am Iesu nad edrychai arno fel cyflawnydd yr addewidion nefol. Ond daeth angeu i roi terfyn ar ei amheuon. Darfu i ryddid anorchfygol yr hen feudwy goroni ei einioes a'r unig derfyn a deilyngai. Nid oedd y duedd garedig a ddangosasai Antipas tuag ato ar y dechreu i barhau yn hir. Yn yr ymddiddanion hynny, yn ol traddodiad Cristionogol, a gafodd Ioan gyda'r tetrach, ni pheidiai ail-adrodd wrtho fod ei briodas yn anghyfreithlon, ac y dylai ddanfon ymaith Herodias. Hawdd y gellir dychmygu adgasrwydd wyres Herod Fawr at y cynghorwr byrbwyll hwn. Ni ddisgwyliai ond yr achlysur i ymddial arno. Ymunodd Salome, merch o'i phriodas gyntaf, ac fel hithau yn uchelgeisiol, a llaes ei moes yn ei chynllwynion. Yn y flwyddyn hon (tua'r flwyddyn 30, mae'n debyg), cafodd Antipas ei hun, ar ddydd ei ben blwydd, yn Machero. Yr oedd Herod Fawr wedi adeiladu o'r tu fewn i'r amddiffynfa balas ardderchog, lle preswyliai'r tetrarch yn fynych. Rhodd yno wledd fawr, yn ystod yr hon y darfu i Salome roddi dawns o'r fath nad ystyrir yn Syria yn anweddus, i berson o radd uchel. Antipas, wedi ei lwyr swyno, a ofynodd i'r ddawnsferch pa beth a ddymunai. Hithau a atebodd, yn ol awgrym ei mam, "Pen Ioan Fedyddiwr ar ddysgl." Siomwyd Antipas, ond nid gwiw gomedd. Cymerodd milwr y ddysgl; aeth i dori pen Ioan, a daeth ag ef yn ol. Cafodd disgyblion y Bedyddiwr y corff, a rhoddasant ef yn y bedd. Yr oedd y bobl yn dra anfoddlawn. Chwe' mlynedd wedi hyn, ymosododd Hareth ar Antipas er mwyn ad-gymeryd Machero, a dial anrhydedd ei ferch, a llwyr orchfygwyd ef, ac edrychir ar y gorchfygiad hwn yn gyffredin fel cospam lofruddiaeth Ioan

Daeth y newydd am y farwolaeth hon at Iesu drwy ddisgyblion Ioan ei hun. Yr oedd ymddygiad Ioan at Iesu yn y dechreu wedi llwyddo i sefydlu cyssylltiad agos rhwng y ddwy ysgol. Gan ei fod yn ofni drwg-fwriad ychwanegol ar ran Antipas, cymerodd Iesu ofal rhag hynny ac ymneillduodd i'r diffaethwch. Canlynwyd ef yno gan lawer o bobl. Drwy gynildeb eithafol bu'r gynulleidfa sanctaidd yn abl i fyw yno, ac edrychir ar hyn yn naturiol fel gwyrth. O'r foment hon ymlaen, ni sieryd Iesu am Ioan ond gyda'r edmygedd mwyaf. Haerai'n ddibetrus ei fod yn fwy na phroffwyd, ac nad oedd grym i'r gyfraith a'r proffwydi cyn ei ddyfodiad ef, ei fod wedi eu dileu, ond fod teyrnas nefoedd i ddileu ei swyddogaeth yntau yn ei thro. Mewn gair, yr oedd Iesu yn gosod i Ioan le ar ei ben ei hun yn hanes cyfriniaeth Gristionogol, gan ei wneuthur yn fath o linyn cysswllt rhwng yr Hen Destament a dyfodiad y deyrnas newydd.

Yr oedd y proffwyd Malachi wedi eglur gyhoeddi rhagfynedydd i'r Messiah, un oedd i barotoi dynion at yr adnewyddiad olaf, negesydd oedd i wastadhau y ffyrdd i etholedig Duw. Nid oedd y negesydd hwn amgen y proffwyd Elias, yr hwn, yn ol tybiaeth a ffynai yn dra chyffredin, oedd yn fuan i ddisgyn o'r nefoedd, lle'r oedd wedi ei dderchafu, er mwyn parotoi dynion, drwy edifeirwch, ar gyfer y dyfodiad mawr ac adgymodiad Duw a'i bobl. Weithiau cyssylltir ag Elias, naill ai y patriarch Enoch, i'r hwn, er's canrif neu ddwy y priodolid sancteiddrwydd dwfn, neu Jeremiah, yr hwn a ystyrid fel math o angel gwarcheidiol y bobl, beunydd yn gweddio drostynt o flaen gorseddfainc Duw. Y mae'r syniad o ddau o hen broffwydi yn adgyfodi i wasanaethu fel rhagredegwyr i'r Messiah i'w gael mewn modd tarawiadol iawn yn athrawiaeth y Phariseaid, a thueddir ni i dybio mai o'u cyfeiriad hwy yr hannodd. Beth bynag am hynny, yr oedd y syniad, yn amser Iesu, yn ffurfio rhan bwysig o athrawiaeth yr Iddewon am y Messiah. Cyfaddefid fod ymddangosiad y "ddau dyst ffyddlon" wedi eu dilladu a gwisgoedd edifeirwch, yn arweiniad i mewn i'r ddrama fawr oedd i ymddadblygu, er syfrdandod y bydysawd.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Yn nghapel y Graig, Trebanos, nos Fercher a dydd Iau, Ebrill y 5ed a'r 6ed, cynhaliwyd cyrddau chwarterol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig. Dechreuwyd y cwrdd nos Fercher gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin ; pregethwyd gan y Parchn. J. Glynne Davies, Aberdar, a T. Arthur Thomas, Llandyssul.

Ymgyfarfyddodd y Pwyllgor am 9.30 boreu dydd Iau. Am grynodeb o waith y cyfryw gweler isod.

Aeth y Parch. John Davies, Alltyplacca, trwy y rhan arweiniol o'r cwrdd boreu dydd Iau, a phregethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Yn y prydnawn cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mr. Lewis Morgan, Clydach-ar-dawe ; a phregethodd y Parchn. D. G. Rees, Penybont-ar-ogwy, a Lewis Williams, Rhydygwin ; a nos Iau cychwynodd y Parch. D. Gower Richards, Gosen, a phregethwyd gan y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr, a John Davies, Alltyplacca, i'r hwn yr ymddiriedwyd y gorchwyl o draddodi y bregeth ar gyfer y cyrddau hyn.

Cafwyd cynulliadau dymunol yn yr holl gyrddau, pregethau cryfion, a gwrandawiad astud. Diolchir yn gynes i'r boneddigesau fuont yn gweithio gyda'r bwyd yn y Vestry, ac ereill fuont mor garedig a rhoi llety i'r gwahanol weinidogion. Mae pob gwaith da yn help i achos crefydd i fyned rhag ei flaen.

BANOS.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd yr uchod yn Nhrebanos, Ebrill 6, y Llywydd, y Parch. D. G. Rees, yn y gadair. Wedi darllen y cofnodion, pasiwyd gwneud y casgliad blynyddol yn yr Eglwysi, y Sul cyntaf yn Mai, neu y Sul cyfleus agosaf i hyny. Dewiswyd y Parch. James Glynne Davies, Aberdar, i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyfarfodydd blynyddol y *British and Foreign*. Etholwyd D. Martin Jones, Ysw., Gwion Castle, Llandyssul, i fod yn Drysorydd, a'r Ysgrifenydd fel o'r blaen. Penderfynwyd estyn gwahoddiad cynes i gynrychiolydd y National Conference i'r cyfarfodydd blynyddol yn y Llwyn. Pasiwyd i Mr. David Cellan Evans, o eglwys Caeronen, i fod yn *Bursar* o Gymdeithas Addysgol y Gweinidogion Undodaidd Cymreig. Pasiwyd hefyd y penderfyniad canlynol yn unfrydol a brwdfrydig :—

"Fod y cyfarfod hwn yn mawr lawenhau yn y symudiad ardderchog gychwynwyd gan yr Arlywydd Taft, ac a gefnogwyd yn wresog gan Syr Edward Grey, yr Ysgrifenydd Tramor, symudiad sydd yn ffafrio cyflafareddu rhwng Prydain Fawr a'r Unol Dalaethau ; ac yn mhellach, ein bod yn gobeithio y bydd yn ddechreuad i sylweddoli yr hen freuddwyd proffwydol, pryd y curir y cleddyfau yn sychau a'r gwaywffyn yn bladuriau, pryd ni chyfyd cenedl yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach."

T. ARTHUR THOMAS (*Ysg.*).

DYMUNEM yn garedig adgofio Undodiaid yn mhob man fod y tanysgrifiadau at y Gymdeithas yn awr yn ddyledus ; ac yn mhellach fod Trysorydd newydd wedi ei ddewis yn lle Mr. Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul, yr hwn ymddiswyddodd ar ol un flynedd ar bymtheg o wasanaeth ffyddlon a gwerthfawr. Cyfeiriad y Trysorydd newydd ydyw Mr. D. Martin Jones, Gwion Castle, Llandyssul. Yr ydym yn ymwybodol fod yna lawer o Undodiaid gwasgaredig ar hyd y wlad heb gyfleusderau i fynychu lle o addoliad, a cheisiaf awgrymu i'r rhai hyn fel ag i bawb eraill os oes ganddynt reswm am y gobaith sydd yndynt, dyma gyfleusdra iddynt i ddangos hyny yn ymarferol, drwy danysgrifio yn flynyddol at ledaenu yr egwyddorion broffesant. Ceir pob manylion oddiwrth yr Ysgrifenydd—T. Arthur Thomas, Llandyssul.

MARWGOFION.

MAWRTH 23, Evan John Davies, Alltgochfach, Llancrwys, yn 20 mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. E. Thomas, gweinidog Salem, Llancrwys, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. C. Jones.

MAWRTH 23, yn hollol ddirybudd, Mary Morgans, Penybont, Llanybyther (gwraig David Morgans, Ffinnantisaf), yn 61 mlwydd oed. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llanbedr. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. John Davies, Alltyplacca, ac wrth y drws gan y Parch. D. James, Rhydybont, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan yr offeiriaid. Gadawodd ei phriod a phedwar o blant i alaru ar ei hol.

MAWRTH 23, yn 44 mlwydd oed, Evan Morgan, Gwesty'r Gored, Resolven. Talodd yr ymadawedig ymweliad a thy ei chwaer (Heolddu, ger Rhydyfro, Pontardawe) gyda'r amcan i aros am ddiwrnod neu ddau; a thranoeth aeth ei frawd-yn-nghyfraith ac yntau allan i'r caeau i saethu, ac wrth groesi clawdd cyfagos digwyddodd i'r gwn ollwng allan ei gynwysiad, ac yn ddamweiniol aeth yr ergyd am ei draws a bu farw yn y fan. Blin iawn oedd y newydd i filoedd o gydnabod Mr. Morgan, yn neillduol y weddw a'r tri phlentyn sydd ar ol yn galaru. Claddwyd wrth Gellionen y dydd Mawrth canlynol. Pregethwyd gan y Parch. J. Price, Saron, Rhydyfro, i gynhebrwng mawr o bell ac agos.

O! adeg gythryblus! aeth Evan fâd
Adref mewn damwain i dy ei Dad;
A bydded i'r plant a'r weddw wraig
Ymorphwys yn dawel ar ddwyfol graig.

MAWRTH 25, bu farw Miss Miriam Agnes Williams, merch Mr. a Mrs. Rees Williams, gynt o'r Werfa, ond nawr 24, College Street, Aberdar. Yr oedd o dymer dawel, siriol a hawddgar, ac mewn parch gan bawb a'i hadwaenai. Dydd Mercher, y 29ain, claddwyd yn nghladdfa gyhoeddus Aberdar. Y Parchn. J. M. Jones, M.A., Tabernacl (A.) a J. Glynne Davies, Hen Dy Cwrdd, yn gwasanaethu.

MAWRTH 26, yn 70 oed, bu farw Anne Davies, Caecoch, ger Cribyn, ar ol cystudd byr ond caled iawn. Nodweddid ei bywyd gan lawer o ragoriaethau, yn enwedig parodrwydd i fod o wasanaeth mewn achosion o galedi; ac ar gyfrif hyn bu yn ddefnyddiol iawn mewn llawer cylch yn ystod ei bywyd. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa y Cribyn, a bu yn ffyddlon iawn hyd y terfyn; nid oedd ei lle byth yn wag, oddieithr fod achos digonol i hyny. Fe wnaeth hi ei goreu. Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Eglwys Llanwnen gan dyrfa luosog y dydd Gwener canlynol. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan ei gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. L. Williams. Traddodwyd y bregeth angladdol yn nghapel y Cribyn y Sul dilynol oddiar 2 Petr 3: 14—"Gwnewch eich goreu." Gadawodd ferch, dau fab, a thair chwaer, a pherthynasau agos eraill mewn galar ar ei hol.

EBRILL 1, bu farw baban i Watkin a Mary Marsden, Shop Llanfair, yn 4 mis oed. Claddwyd yn mynwent Capelygroes y dydd Iau canlynol, y gweinidog yn pregethu yn y capel.

EBRILL 1, bu farw Thomas Davies, 12, Fair View Houses, Cefncoed, ar ol cystudd maith a chaled, yn 48 oed. Gadawodd ar ei ol briod, tri o feibion a thair merch. Dydd Mercher canlynol hebryngwyd ei gorph i fynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Nodded y Nefoedd fyddo dros y weddw a'r amddifaid.

EBRILL 1, bu farw Willie, mab Mrs. Jane Lewis, Pleasant View, Cefncoed, yn 16 mlwydd oed. Ni fu

yn gystuddiol ond am ychydig ddiwrnodau a bu ei symudiad felly yn dra anisgwyliadwy. Un o brif nodweddion Willie oedd ei foneddigeiddrwydd, ac yr oedd iddo barch mawr gan bawb oedd yn ei adnabod. Y dydd Mercher canlynol daeth tyrfa fawr yn nghyd i hebrwng ei weddillion i fynwent yr Hen Dy Cwrdd. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle. Nerth a gaffo y fam i alaru yn rhesymol ar ei ol.

EBRILL 9, wedi cystudd maith, yn 32 oed, Hannah, anwyl ferch James Jones, Caerau, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. J. Davies, Capelycwm, wrth y drws gan y Parch. J. Morris, Ficer y Plwyf, yn y capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Treuliodd yr ymadawedig ei hoes fer yn ddefnyddiol iawn fel athrawes mewn gwahanol ysgolion elfenol. Yr oedd iddi barch mawr yn mhob man lle bu; ac y mae ein byd ni yn dlotach o'i cholli. Nerth a gaffo'r tad, y brodyr a'r chwiorydd i alaru'n gymedrol ar ei hol.

EBRILL 9, Anne Davies, gweddw y diweddar Enoch Davies, Rhydeinon, Llanarth, yn 86 oed. Ganwyd yr ymadawedig yn Llanfechan, Llanybyther, a bu byw am rai blynyddoedd yn Penybont, Llansawel. Yr oedd yn fethedig er's blynyddoedd ac yn hollol ddall. Bu ei merch a'i mab-yn-nghyfraith yn dirion iawn o honi a dangosasant amynedd dda. Claddwyd yr Iau canlynol yn Alltyplacca, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

EBRILL 15, Margaret, gweddw y diweddar Thomas Thomas, Glowon-Dale (Cwarre), Talgarreg, yn 86 oed, gan adael plant a pherthynasau ereill mewn galar. Claddwyd yr Iau canlynol yn Pisgah. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. T. C. Benjamin, ac yn y capel gan y Parchn. E. J. Edwards ac E. O. Jenkins.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dymunir cydnabod yn ddiolchgar y casgliadau canlynol—Trebanos, 18s.; Llwynrhydowen, 7s.6c.; Alltyplacca, 5s.; Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, 5s.; Caeronen, 6s. Apeliwn at y lleill am wneud y casgliad mor fuan ag y byddo yn gyfleus.

ALLTYPLACCA.—Dydd Gwyl Ddewi (Mawrth 1) trwy garedigrwydd teuluoedd parchus Dolau-uchaf a Dolau Ville, anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul Alltyplacca a'u Gŵyl Dê Flynyddol. Cynorthwywyd wrth y byrddau gan foneddigesau y gynulleidfa, a chafodd pawb eu llwyr foddloni. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Cystadleuol o radd uchel. Cadeiriwyd gan Mr. Lewis Thomas, Brynhafod, Llanllwni, ac arweiniwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Beirniad y Gerddoriaeth oedd Mr. Dunn Williams, Caerfyrddin; y Farddoniaeth, Mr. T. O. Williams (Ap Gwarnant); yr Adroddiadau, y Parch. E. O. Jenkins; Cyfeilyddes, Miss Thomas, Market Place, Llanybyther. Anrhegwyd y rhai oeddent wedi mynychu'r ysgol yn fwyaf cyson drwy y flwyddyn a llyfrau gwerthfawr. Pallai gofod i ni roddi enwau y buddugwyr yn y gwahanol gystadleuaethau i lawr. Boddloner ar ddweud fod y cyfan wedi troi allan

yn llwyddianus. Gwnaeth yr ysgrifenyddion, Miss Williams a Miss Evans eu rhan yn dda, a ehoronwyd eu llafur. Bydd yn dda gan gyfeillion Mr. T. O. Williams (Ap Gwarnant) glywed ei fod wedi ei wneud yn fardd cadeiriol yr wythnos ddiweddaf yn Eisteddfod Brynhafod, gyda chymeradwyaeth uchel.

Y Graig a Gellionen.—Nos Sadwrn, Chwefror 25, yn ysgoldy newydd y lle, a than lywyddiaeth fforddus, Mr. David Davies, Heol Abertawe, Trebanos, cynhaliwyd clogwrdd i'r gyfres o gyrddau fu yma yn ystod y gauaf a aeth heibio.——Nos Sul, Chwefror 26, yn y Graig, dan arweiniad galluog Mr. Willie Williams ; yr organydd—Mr. John H. Morgan, perfformiwyd Cantawd "Daniel," gan Gôr y Graig. Mwynhawyd y cyfan gan y gynulleidfa, ac aeth pawb drwy eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Melus, moes eto. ——Nos Sadwrn, Ebrill y 1af, yn Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe, rhoddodd parti cerddorol a dramayddol y Graig a Gellionen, berfformiad penigamp o'r *Operetta* brydferth, a elwir "*Marjorie*," a llanwyd y neuadd o bobl yn mhell cyn amser dechreu. Chwareuodd Seindorf Arian Trebanos, "*L'africane*," fel agoriad i'r gyngherdd, dan arweiniad H. H. Morgan, Ysw. Da genym allu dweud i bawb, y plant yn neillduol, wneud eu gwaith yn ganmoladwy. Arweinydd—Mr. Henry H. Morgan, i'r hwn y mae clod, nid bychan, yn ddyledus, am ei lafur cyson, diflino, gyda'r gwaith, o'r dechreu i'r diwedd. Arweiniwyd y Gerddorfa Linynol gan Mr. Joe Morgan, Alltwen, a chwareuasant yn deilwng o honynt eu hunain.

Llwynrhydowen. — Cynhaliodd Ysgol Sul y lle hwn ei Gwyl Dê a'i Chyngherdd Flynyddol, prydnawn a hwyr dydd Gwener, Mawrth 3ydd. Gan i'r tywydd droi allan yn ffafriol daeth torf dda ynghyd, a chafwyd amser llawen iawn. Yr oedd yn wledd ragorol, ac y mae deiliaid yr Ysgol Sul yn ddiolchgar iawn i Miss Mary Anne Davies, Rhydowengoed, a Miss Mary Anne Evans, Moelhedogfach, dwy o foneddigesau ieuainc yr ysgol, am ddarparu mor helaeth a blasus ar eu cyfer. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Adloniadol difyrus, a llawn o adeiladaeth, o dan lywyddiaeth Mr. J. R. Thomas—cyfarfod o adrodd, canu a chystadlu. Beirniadwyd yn ddeheuig iawn gan Mr. David Davies, Gwarcefel Arms, ac ydym ddiolchgar iddo am ei wasanaeth. Yn ystod yr hwyr gwobrwywyd y plant ffyddlon am gadw yr Ysgol Sul, a rhoddwyd bob o Feibl i'r ddwy fu'n rhoi y tê.

Aberystwyth. — Cynhaliodd y ddeadell fechan gyferfydd yn yr addoldy bach dinod yn New Street, ei Chyfarfod Blynyddol nos Sul, Mawrth 5ed, ar ol y gwasanaeth arferol. Daeth cynulliad gwell na'r cyffredin ynghyd i wrando ar y cadeirydd, Mr. Joinson, yn rhoddi ei bregeth ymadawol cyn ein gadael (am dymhor, beth bynag) am wlad y Sais. Y gwasanaeth drosodd, cymerwyd y gadair gan y cadeirydd, a darllenwyd yr adroddiad a'r cyfrifon am y flwyddyn gan y trysorydd, y Parch. G. Eyre Evans. Ail-etholwyd Mr. Evans i'w swydd, ac fel ysgrifenydd yn lle Mr. Joinson dewiswyd D. J. Davies, o'r Ysgol Sir. Cymerwyd mantais o'r cyfarfod hwn i anrhegu Miss Joinson, yr hon sydd wedi rhoi ei gwasanaeth yn rhad ac yn rhwydd er ys blynyddau fel organyddes, a gwlawlen werthfawr, gyda'i henw a'r achlysur yn gerfiedig arni. Bydd yn golled nid bychan ini, ychydig fel ag ydym, i golli dau aelod gweithgar a selog fel Mr. a Miss Joinson o'n plith. Os gŵyr ein darllenwyr am rai o bobl ieuainc ein heglwysi neu am rywrai mewn cydymdeimlad a rhyddid a chynydd mewn crefydd yn dod i aros i Aberystwyth am dymhor hir neu fyr, byddem yn ddiolchgar pe danfonent air i gofnodi'r ffaith i'r ysgrifenydd. —*D. J. D.*

Cefncoed.—Nos Fawrth, y 14eg o Fawrth, cynhaliwyd *Social Tea*, mewn perthynas a'r Gymdeithas Ddiwylliadol yr Hen-Dy-Cwrdd. Y mae y bobl ieuaingc i'w canmol am eu

gweithgarwch a'u ffyddlondeb yn ystod y tymhor a ddaeth i'r terfyn ar y noson uchod. Ond y mae ein diolchgarwch hefyd yn ddyledus i rai y tu allan i'r gymdeithas am eu caredigrwydd yn rhoddi i ni anerchiadau yn ystod y tymhor diweddaf, y rhai ydynt—y Parchn. J. Park Davies, B.A., B.D., D. G. Rees, J. Glynne Davies, a Mri. Evan J. Powell a Richard G. Price. Wedi ymgyfranogi o'r amrywiol ddanteithion ar y byrddau treuliwyd y gweddill o'r noson mewn gwahanol chwareuaethau, ac amlwg oedd fod pawb yn mwynhau eu hunain.——Nos Fawrth, y 4ydd o Ebrill, daeth nifer luosog o blant y *Band of Hope*, ac aelodau y *Sewing Class* yn nghyd i gael eu Tê blynyddol. Wedi clirio'r byrddau cawsom amser difyrus yn chwareu gyda'r plant, a mwynhasant eu hunain i'r fath raddau fel nad ydynt wedi peidio son am hyny etto.

CAPELYCWM.—Mawrth 17, cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleuol mewn cerddoriaeth, barddoniaeth, adroddiadau, a chelfyddyd yn Nghapelycwm. Ar gais yr hen weinidog cymerwyd y gadair gan Mr. D. Hedog Jones, Caerau; yr hwn a'i llanwodd yn anrhydeddus. Arweiniwyd yn ei ddull poblogaidd arferol gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Yr oedd y capel yn gysurus o lawn, heb fod yn ormod felly. Rhwng pob peth cafwyd cyfarfod llwyddianus. Dangoswyd llawer o dalent gan y cystadleuwyr yn eu gwahanol ganghenau. Mae'n galondid i'r eglwys ieuanc i weled pethau fel hyn yn troi allan cystal. Ewch rhagoch yw dymuniad un sydd yn teimlo dyddordeb mawr yn yr achos.

CAPELYBRYN.——Chwefror 24ain, cafoddd yr Ysgol Sul ei Gŵyl Dê flynyddol dan amgylchiadau dymunol. Dygwyd traul y wledd eleni gan Mrs. Jones, Cwmmawr, a Mrs. Jenkins, Ty'rcapel; a chynorthwywyd wrth y byrddau gan nifer liosog o wragedd a merched ieuainc y gynulleidfa. Yr oedd y wledd o'r fath oreu, ac nid oedd modd lai na bod pawb wedi ei mwynhau yn rhagorol. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Llenyddol dyddorol dros ben gan aelodau yr ysgol. Llywyddwyd gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn ddeheuig gan Dr. D. J. Davies, Aberystwyth. Rhanwyd 22 o lyfrau Cymraeg gwerthfawr gan Dr. Davies yn wobrau i'r rhai oedd wedi cadw'r ysgol yn fwyaf cyson drwy y flwyddyn. Wedi talu diolchiadau i bawb o gefnogwyr a noddwyr yr ysgol ymadawyd mewn llawn foddlonrwydd.

PENTRE.—Ar y 6ed a'r 8fed cynfisol cynhaliwyd Cyngherdd Plant llwyddianus yn y Neuadd Gyhoeddus dan nawdd yr Eglwys Undodaidd. Yr oedd yr adeilad, yr hwn fedr ddal tua 700, yn llawn ar y ddau achlysur. Aeth y plant, y mwyafrif o honynt yn perthyn i enwadau eraill, drwy eu gwaith yn llwyddianus iawn. Y mae y rhan fwyaf o'r llwyddiant i'w briodoli i Mr. W. Josiah Phillips a'i gynorthwywyr parod. Cyfeilyddwyd gan Misses G. H. Jenkins, a E. Richards. Teilwng hefyd yw enwi Cymdeithas y Gwragedd, o dan arweiniad Mrs. Joseph Jenkins, y rhai a barotoisant y gwahanol nwyddau yn amserol ac yn fedrus. Cadeiriwyd y noson gyntaf gan y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., a'r ail noson gan Mr. L. N. Williams, J.P., Aberdar. Aiff yr elw i glirio'r ddyled sydd yn aros ar y capel.

BRONDEIFI.—Cynhaliodd eglwys Brondeifi ei Gŵyl Dê eleni prydnawn dydd Gwener y Groglith, a chyfranogwyd o'r danteithion gan nifer luosog o aelodau'r eglwys a'r Ysgol Sul. Yn yr hwyr cafwyd Cwrdd Adloniadol a Chystadleuol llwyddianus dros ben. Arweiniwyd gan Mr. Tecwyn Davies; beirniadwyd yr adroddiadau gan y Parch. J. Carrara Davies, Cefncoed, a'r Canu gan Mr. Lewis, Garth, Llanbedr, a chadeiriwyd gan y gweinidog.

RHYDYGWIN.—Ar ddydd Gwener y Groglith cynhaliodd yr eglwys ei Gŵyl Dê flynyddol. Caed hin ddymunol, a daeth nifer luosog o blant a phobl mewn oed yn nghyd. Y boneddigesau a ddarparodd y wledd oedd Mrs. a Miss Howells, Dol-

boidy ; Mrs. Davies, Y Felin ; Mrs. Howells, Ystrad Honse, a Misses Howells, Brynog. Cynorthwywyd hwy hefyd wrth y byrddau gan foneddigesau caredig y gynulleidfa. Gwnaeth eu serchowgrwydd ynnghyd ag ansawdd ragorol y pethau bwytadwy oedd ar y byrddau i bawb fwynhau eu hunain yn dda. Ar ol y tê cynhaliwyd Eisteddfod yn y capel, a daeth llond y capel yn nghyd. Cafwyd anerchiad cymhwys i'r amgylchiad gan Mr. Hughes, Rhydyfydir, cyn cychwyn ar waith yr Eisteddfod. Cadeiriwyd yn fedrus gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, ac arweiniwyd yn ddifyr gan Sarnicol. Cafwyd cystadleuaeth dda ar y rhan fwyaf o'r pethau yn mhob adran. Cafodd côr plant y lle, o dan arweiniad Mr. Hughes, Rhydyfydir, ganmoliaeth uchel gan y beirniad.

CILIAU AERON.—Ar y 18fed o Ebrill, prydnawn Arholiad blynyddol plant yr Ysgol Sul, cafodd y plant oedd yn sefyll yr Arholiad wledd o dê. Gweinyddwyd wrth y byrddau gan Mrs. Evans, Maesygaer ; Mrs. Davies, Glynderwen ; Misses Evans, Park ; a Miss Jonathan, Foelallt. Ar ol gorphen a'r tê cafwyd adroddiadau a chanu gan y plant.

Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

Llywydd: Parch. DAVID G. REES, Bridgend.

CYNHELIR

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

yr uchod yn **LLWYNRHYDOWEN** yr wythnos olaf yn MEHEFIN.

Traddodir yr Anerchiad o'r Gadair ar y Testyn :—

"Yr Undodiaid a'r Pwnc o Berson Crist."

Disgwylir i amryw eraill heblaw'r Llywydd i siarad.

Ymddengys manylion pellach yn y Rhifyn nesaf.

T. ARTHUR THOMAS, *Ysgrifenydd.*

Trysorfa Addysgol Gweinidogion Undodaidd Cymreig

RHODDION YCHWANEGOL.

Casgliad Alltyplacca	...	0	17 3
Mr. Rees Jenkins, Inglis Cottage ...	...	0	2 6
Mr. Evan Evans, Ffinnantganol ...	...	0	2 6
Mr. Thomas Evans, Dolau uchaf ...	...	0	2 6
Mrs. Thomas, Brynhafod ...	...	0	2 6
Mr. Evan J. Thomas, Abertawe ...	...	0	10 6

Anfoner pob tanysgrifiadau i'r Trysorydd—MRS. EVANS, Taliesin House, Lampeter ; neu i'r Ysgrifenydd, y PARCH. R. C. JONES, Ogmore House, Lampeter.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS.

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.
Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses,

Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),
To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR.

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Ffrwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

A REMOVAL

means something more than the mere shifting of one's possessions from one place to another. It is the time when hidden and unsuspected defects and deficiencies come to light, and also the best time for them to be remedied.

New Blinds are almost certain to be wanted. Carpets want cleaning and probably altering. Bedding stands in need of purifying and re-making. Furniture requires polishing and perhaps mending and re-upholstering and so on.

All this work we undertake from the packing of the Goods for removal to the putting of everything into proper condition for its position in the New Home.

This work can be done in several ways, but there is only one "Ben. Evans" way and that's—The Best, which is always the cheapest in the end.

Painting & Decorating. Estimates Free

BEN. EVANS & Co.

SWANSEA. LTD.

Telephone, Central—1015.